

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 9, 2024 am 7.30 o'r gloch.**

Preseanol: Cyngorwyr: Gwenan Owen, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Geraint Rowlands, Llinos Rowlands, Eleri Jones. Hefyd Henry M. Edwards a Cyng. Delyth Lloyd Griffiths .

Gydag absenoldeb Simon Evans (Cadeirydd) a Gareth Ellis (Is-gadeirydd), cadeirwyd y cyfarfod gan Gwenan Owen.

1. Ymddiheuriadau: Simon Evans a Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 12, 2023

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Rowlands ac eilwyd gan Eleri Jones.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Rhagfyr 12, 2023

Eitem 4., Eitem 12.a. Llythyr (15/12/2023) oddi wrth Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod o'u rhestr Ardrethi Annomestig (trethi busnes) nid yw Halfway Public House i fewn band Treth Cyngor felly ni allent godi premiwm eiddo gwag arno. Mae'r trefniadau ar gyfer eiddo annomestig gwag yn wahanol ac nid oes "premiwm eiddo gwag" i'w gael ar eiddo gwag o'r fath, ond mae trethi yn daladwy ar ôl i'r eiddo fod yn wag am gyfnod penodol. Ni all y Cyngor drosglwyddo eiddo rhwng y rhestr annomestig a'r rhestr Treth Cyngor – dim ond Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr (VOA) all wneud hynny.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 4., Eitem 12.a. Llythyr ateb (15/12/2023) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod maent yn ymwybodol o gyflwr gwael yr eiddo. Maent eisoes wedi ceisio cysylltu â pherchnogion yr eiddo hwn ond heb unrhyw fudd. Bydd yr ymdrechion yn parhau eto yn y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, os yw'r Cyngor Cymuned gydag unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r perchnogion a sut y gellir cysylltu â nhw, yna byddai'r Awdurdod yn ddiolchgar i dderbyn y wybodaeth hon. Bydd unrhyw ddatblygiad a wneir ar y mater hwn yn cael ei adrodd i'r Cyngor Cymuned pan fydd hyn yn digwydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD IONAWR 9, 2024

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc bod y Cyngor yn awyddus iddynt gysylltu â Mr Edward Bleddyn Jones, Rheolwr Trethi Cyngor Gwynedd i drafod Halfway Public House, Bontddu i sicrhau fod y Parc a Cyngor Gwynedd yn rhannu pob gwybodaeth am yr eiddo gan gynnwys perchenog yr eiddo.

Eitem 4., Eitem 12.b. Llythyr ateb (15/12/2023) oddi wrth Coed Cadw yn rhoi gwybod i ni gysylltu â Cycling UK pwy sy'n gyfrifol am hysbysu'r llwybr. Neu Cyngor Gwynedd neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gael gwybod os maent yn gwybod am hanes y llwybr beics trwy Cwm Mynach.

5. Materion Ariannol

a. Bil (2/12/2023) am £1,580.00 oddi wrth A.M. Ashton am wneud gwaith yn y fynwent. Torri gwair a'i gludo ym Mehefin, Awst a Hydref (£1,200); chwistrellu'r llwybrau a'r waliau â chwynladdwr (10awr @ £14 = £140 + £30 (chwynladdwr)); torri mân goed a choeden gelyn wrth Tanllan a'u cludo (10awr @ £14); a thorri gwrychoedd (5awr @ £14 = £70) . (Llynedd roedd y bil am £1,382.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

Amgáu gyda'r bil mae llythyr (7/12/2023) yn awgrymu adolygu trefniant torri gwair oherwydd costau wedi cynyddu'n sylweddol ers iddo wneud y gwaith 7 mlynedd yn ôl. Mae'n awgrym torriad ychwanegol yn diwedd Ebrill / dechrau Mai. Felly bydd 4 torriad am £450 yn gwneud cyfanswm o £1,800.00 (swm presennol yw £1,200.00). Gyda gwaith ychwanegol e.e. chwistrellu £16 yr awr (pris presennol yw £14 yr awr).

Y gost fyddai'r bil uchod gyda'r prisiau newydd: £1,800 + £160 (10awr @ £16) + £30 + £160 + £80 (5awr @ £16) = £2,230.00.

Penderfynwyd derbyn y prisiau newydd ond yn erbyn cael toriad ym mis Ebrill / Mai oherwydd y cytundeb sydd gan y Cyngor gydaag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â gwaith Bioamrywiaeth bydd yn cael ei wneud yn y fynwent.

b. Bil (19/12/2023) am £280.00 oddi wrth Archwilio Cymru tuag at ffiodd archwilio 2021-2022.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Bil (19/12/2023) am £210.00 oddi wrth Archwilio Cymru tuag at ffiodd archwilio 2022-2023.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD IONAWR 9, 2024

ch. Derbyniwyd (727/12/2023) £841.17, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2023/2024.

d. Bil (8/1/2024 am £33.60 oddi wrth Mr Gareth W. Jones am dorri gwrych y Fynwent. (Llynedd roedd y bil am £33.60)

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Balans yn y banc ar 29/12/2023: £11,075.92.

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

a. Gweler Eitem 5.a. ac Eitem 5.d.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/21/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionydd bydd yn cael ei gynnal ar 3/1/2024 am 7.00yh ar Zoom. Amgáu mae Agenda, a Chofnodion cyfarfod 4/10/2023.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (4/1/2024) oddi wrth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (trwy law Un Llais Cymru) yn gwahodd ni i sesiwn Gwyllo Cyflymder Cymunedol: [GanBwyll | Gwyllo Cyflymder Cymunedol](#) ar 8/2/2024 am 7.00yh drwy Zoom. Mae aelodau'r gymuned, gyda'r Heddlu, yn defnyddio teclynnau i fonitro cyflymder cerbydau, gyda'r nod o addysgu gyrwyr i yrru'n arafach. Mae angen cofrestru trwy kaarina.ruta@wlg.gov.uk cyn 31/1/2024.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

10. Bioamrywiaeth

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

1. Bontddu. Wedi ymweld â etholwr oedd yn cael trafferth gyda dŵr yn dod o ffordd y cyngor drwy ei dir. Mae y cyngor am asesu.

2. Mater cyflymder ceir yn ardal Bro cymer Llanelltyd. Cyfarfod gen i a Mabon 15/1/24 i drafod beth yw y ffordd orau o gysylltu gyda Llywodraeth Cymru gan ei bod yn gyfrifol am y ffordd benodol yma.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD IONAWR 9, 2024

3. Coed y Brenin. Mabon a Delyth wedi cael cyfarfod gyda Martin Cox a Elsie Grace o Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyfoeth yn adolygu y safle ac yn ystyried dal gafael ar y maes parcio a hefyd ar traciau beics. Mae nifer yr ymwelwyr i lawr i 100,000 y flwyddyn erbyn hyn a gwariant pob un person sydd yn ymweld yn gwario £2.50. Mae Cyfoeth yn dal gafael ar bob un or staff parhaol. Mae angen gwario 1.5 miliwn ar yr adeiladau yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Bydd trafodaeth gyda chyngor Y Ganllwyd am y ffordd ymlaen nos yfory.
4. Halfway. Mae y cyngor yn dal i godi treth busnes ar yr eiddo ond mae Delyth wedi cael Cyngor pendant i beidio ymwneud ar mater yma yn y dyfodol.
5. Tim Pêl-droed plant Dolgellau wedi cael grant SPF ar ôl i Delyth rhoi y wybodaeth iddynt am SPF.
6. Mae Delyth wedi bod yn rhoi cyngor i'r Tim Pel Droed am faterion yn ymwneud a Yswiriant bws mini.
7. Ysbwrial Hengwrt Llanelltyd – dim datblygiad. Delyth yn dal i drïo cael y wybodaeth ddiweddaraf.
8. Bin baw cŵn Llanelltyd – fydd Delyth yn gofyn i'r cyngor agor hwn.
9. Goriad 'bollards' yn safle yr Hen bont yn Llanelltyd – Delyth am ofyn i swyddog y cyngor am goriad ar gyfer Geraint Fanner.
10. Coed wedi syrthio yn ystod y storm ar ôl Nadolig wedi eu clirio gan y Cyngor yn fuan iawn. Delyth wedi diolch iddynt.
11. Pont Cwm Mynach wedi ei gorffen a pobl lleol yn hapus gyda'r gwaith. Elfed oedd wedi gofyn i Delyth sicrhau fod y gwaith yma o ddiogelu y bont yn cael ei wneud.
12. Anfonwyd i'r aelodau copi o llythyr derbyniodd Cyngor Cymuned Ganllwyd ar ddyfodol Coed y Brenin Visitor Centre. Roedd y llythyr oddi wrth Pennaeth Gweithrediadau y Gogledd Orllewin, Cyfoeth Naturiol Cymru.

12. Materion Aelodau

a. Anfonwyd llythyr (30/12/2023) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen sgubo ffordd Taicynhaeaf. Mae gwaith sgubo wedi cynyddu wedi'r glaw trwm rydym wedi ei gael. Hefyd, mae angen iddynt wneud rhywbeth i gael gwared o'r dŵr sy'n sefyll ar ffordd Taicynhaeaf wrth y troad o'r ffordd A496.

Penderfynwyd diolch Adran Priffyrdd am wneud gwaith rhagorol o sgubo'r ffordd ac am wneud gwaith tebyg yn llefydd eraill yn y gymuned.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD IONAWR 9, 2024

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd mae angen sgubo'r ffordd o The Pill i Hen Bont Llanelltyd.

c. Dyfodol y Clerc. Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.
